

Byw'n Iach

2026-2029

STRATEGAETH BYW'N IACH

Datblygu sut mae ein canolfannau hamdden, pyllau nofio, cyfleusterau ffitrwydd, gwasanaethau a thimau yn gwasanaethu eu pobl a'u cymunedau.

www.bywniach.cymru

Syniadau Bras

Y nod yw datblygu sut mae ein canolfannau hamdden, pyllau nofio, cyfleusterau ffitrwydd, gwasanaethau a thimau yn gwasanaethu eu pobl a'u cymunedau.

Bydd hyn yn:

01 **Cefnogi pobl i fyw bywydau actif**

02 **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd**


03 **Sicrhau cyfleusterau cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**



Amcanion

1. Annog, datblygu a gyrru cymunedau Gwynedd i fod yn actif
2. Cyfleusterau addas ac o safon uchel
3. Ymdrin ag anghyfartaleddau iechyd a lles
4. Gwella dangosyddion iechyd y boblogaeth
5. Partner allweddol mewn system iechyd a lles ehangach
6. Gweithlu sydd â'r sgiliau a diwylliant i lwyddo
7. Gwaith wedi ei gefnogi gan dystiolaeth a sail gadarn
8. Cwmni, canolfannau a model busnes cynaliadwy

Meysydd Strategol



1. Annog pawb i fyw bywyd actif a helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd yng Ngwynedd:

1.1 Cyfrannu i wella canlyniadau iechyd a lles poblogaeth Gwynedd

1.2 Cynyddu nifer y bobl sy'n mynychu ein cyfleusterau a'n gwasanaethau yn enwedig ymysg grwpiau sy'n wynebu'r anghydraddoldebau iechyd a gweithgarwch corfforol mwyaf

1.3 Sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn cynnig cyfleoedd gwell i fod yn actif

1.4 Datblygu a hyrwyddo ein gallu i wella iechyd a lles trwy raglenni addas o safbwynt ataliol ac adfer.

1.5 Cryfhau gwytnwch, cynaliadwyedd a sgiliau ein gweithlu ar y cyd i fodloni gofynion eu rôl ac anghenion newidiol ein cymunedau.



2. Arwain a chefnogi gwaith hybu iechyd a lles ledled y system gyda phartneriaid allweddol

2.1 Cyd-ddylunio a darparu atebion a rhaglenni iechyd a lles credadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

2.2 Datblygu partneriaethau gyda meddygon teulu i gynyddu ymyrraeth ataliol ac adferol.

2.3 Datblygu ymyraethau penodol i fynd i'r afael â heriau iechyd mwyaf amlwg Gwynedd gyda phwyslais ar ddiabetes, cardioleg, iechyd meddwl a phlant a phobl ifanc.

2.4 Cydweithio â phartneriaid i greu gweithleoedd iach



3. Cryfhau ein gwytnwch i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor:

3.1 Cryfhau ein sefyllfa a'n gallu i chwilio am gomisiynau newydd a ffynonellau refeniw ychwanegol.

3.2 Gwella enw da a hygrededd ein cwmni gyda rhanddeiliaid allweddol a pharhau i ehangu ein rôl ddylanwadu.

3.3 Gwella ac adnewyddu ansawdd ein hadeiladau i gynnig cyfleusterau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

4. Ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol a chefnogi uchelgais Cyngor Gwynedd i fod yn garbon-niwtral erbyn 2030:

4.1 Dangos a rhannu arfer da i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon yn ein hadeiladau i gyfrannu at darged sero net Cyngor Gwynedd 2030.

4.2 Ymgysylltu ac addysgu ein staff a'n haelodau am effeithiau newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo teithio actif, cynaliadwy i'n cyfleusterau ac oddi yno.